



Swydd: Tîm Creadigol: Marchnata Digidol
Adran: Tîm Creadigol

Dyddiad cau: Dydd Mawrth 22.12.20 am 12:00 (hanner dydd)

Cyfweliadau: Wythnos yn dechrau 04.01.21

Swydd i ddechrau: Cyn gynted a phosib (Ionawr 2021 yn ddelfrydol)

Cyflog: £20,000 - £23,000

Oriau: 37 awr yr wythnos
(gall gynnwys gyda'r nos/penwythnosau yn achlysurol)

I ymgeisio: Bydd angen cwblhau ffurflen gais a copi o'ch CV

Croesewir ceisiadau hefyd ar ffurf fideo/sain – cyflwynwch eich hunan, gan ateb y cwestiynau a nodir ar y ffurflen gais

Os oes angen gwybodaeth pellach neu sgwrs anffurfiol:

Steffan Thomas (Cyfarwyddwr Creadigol)
01286 685 211
steffan.thomas@galericaernarfon.com

Naomi Saunders (Arweinydd Tîm Creadigol)
01286 685 241
naomi.saunders@galericaernarfon.com

Prif bwrpas y Swydd:

I weithio ofewn tîm creadigol newydd Galeri, dyma gyfle i unigolyn creadigol, brwdfrydig, gwybodus a chydwybodol i arwain gwaith dylunio ac elfennau marchnata digidol Galeri Caernarfon Cyf.

Mi fydd gan y person llwyddiannus ddealltwriaeth am dylunio asedau (print a digidol), creu a golygu fideo a recordiadau sain, ymgyrchoedd e-byst, gwefanau cymdeithasol amrywiol ac yn gallu ymateb/gweithio i frîff a/neu i'r galw gan gynulleidfaedd Galeri.

Bydd cyfle i ddatblygu a gweithredu syniadau ac ymgyrchoedd newydd er mwyn cyrraedd a datblygu cynulleidfaedd ac yr ymdeimlad o berthnasedd a perthyn gan y gymuned i weithgareddau'r cwmni, sydd yn cynnwys:

- Galeri (fel canolfan aml-bwrpas)
- Datgblygu eiddo (yn y dre)

- Cei Llechi (safle masnachol/manwerthu newydd i ail-agor yn 2021)

Mae'r swydd yn golygu gallu gweithio yn unigol ac fel rhan o dîm ac yn gofyn am feddylfryd agored, creadigol a phositif.

Prif ddyletswyddau/cyfrifoldebau:

Yn gyffredinol:

- Datblygu a gweithredu strategaeth farchnata digidol
- Dyfeisio, cyflwyno, gweithredu a monitro ymgyrchoedd marchnata
- Cynorthwyo yr adran farchnata i gyrraedd targedau amrywiol
- Cynorthwyo yr adran o ran rheoli a defnyddio system docynnau Ticketsolve
- Datblygu syniadau newydd

Digidol:

- Creu (a golygu) asedau digidol amrywiol:
Dylunio Fideo Lluniau Clipiau sain ayyb
- Arwain presenoldeb ac ymgyrchoedd marchnata digidol y cwmni ar wefanau cymdeithasol megis Facebook, Twitter ac Instagram (ac eraill)
- Chwilio a gweithredu cyfleoedd i ddatblygu cynulleidfaoedd digidol Galeri
- Dylunio hysbysebion digidol (ar gyfer platfformau amrywiol)
- Datblygu gwefan y cwmni a Cei Llechi (o ran cynnwys / strwythr / hygyrchedd)
- Cydlynnu a datblygu e-fwletinau/e-gyfathrebu'r cwmni (gan ddefnyddio meddalwedd Mailchimp)
- Monitro ystadegau (Google Analytics a tueddiadau amrywiol) ac ymateb i'r galw

Print:

- Dylunio gwaith print amrywiol (fel bo angen)
- Casglu a chydlynnu manylion ar gyfer gweithiau print amrywiol eraill (e.e. rhaglen dymhorol)

Gwybodaeth/profiad ar y canlynol yn angenrheidiol:

- Adobe Photoshop / Lightroom
- Microsoft Office (Outlook / Word / Excel / Powerpoint)
- Facebook / Twitter / Instagram
- Youtube / Vimeo

Gwybodaeth/profiad ar y canlynol yn ddelfrydol:

- Adobe Illustrator
- Adobe InDesign
- Adobe PremierePro (neu feddalwedd golygu fideo eraill)
- Hootsuite
- Mailchimp
- Google AdWords
- Google Analytics
- Delio gyda argraffwyr/y wasg

Manyldeb Person:

- Creadigol
- Egniol, cyfrifol, brwdfrydig, cwrtais, angerddol

- Yn gallu defnyddio meddalweddau dylunio
- Yn gallu creu ffilmiau byrion / golygu gyda meddalweddau
- Yn gallu cyfathrebu yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Arddangos hunan gred a gonestrwydd
- Hyderus i gyfrannu syniadau arloesol / newydd
- Angerddol am y celfyddydau a gweledigaeth Galeri

Hyfforddiant:

Rhoddir hyfforddiant lawn ar systemau tocynnau (Ticketsolve) ac mae cyfleodd hyfforddi pellach yn bosib i'r ymgeisydd llwyddiannus.

Mae'r gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol.

Rydym yn annog ceisiadau yn arbennig gan bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o ran hil, hunaniaeth rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, crefydd, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, anabledd neu oedran.

**Ebostiwch eich cais i naomi.saunders@galericaernarfon.com erbyn:
Dydd Mawrth 22.12.20 am 12:00 (hanner dydd)**

Os oes angen gwybodaeth pellach neu sgwrs anffurfiol:

Steffan Thomas (Cyfarwyddwr Creadigol)
01286 685 211
steffan.thomas@galericaernarfon.com

Naomi Saunders (Arweinydd Tîm Creadigol)
01286 685 241
naomi.saunders@galericaernarfon.com

galericaernarfon.com

Facebook: @GaleriCaernarfon

Instagram: @galericaernarfon

Twitter: @_Galeri_